# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)
## Cynhyrchu a Dosbarthu: Sêr – Sandra Bullock

## Gweithgaredd Cychwynnol (Adnodd Digidol 4a)

**Edrychwch ar y wybodaeth am *Gravity* o Box Office Mojo.**

**http://www.boxofficemojo.com/movies/?id=gravity.htm**

| Cyfanswm Arian y Ffilm | | |
|---|---|---|
| **Domestig:** | **(UDA) $274,092,705** | **38.3%** |
| + Tramor: | $442,300,000 | 61.7% |
| **= Byd-eang** | **$716,392,705** | |

**Roedd costau cynhyrchu *Gravity* tua $100 miliwn, ac mae'r ffilm wedi gwneud dros dair gwaith a hanner y gost honno, felly gwnaeth elw da. Mewn parau, rhowch y rhesymau canlynol posibl am lwyddiant y ffilm mewn trefn:**

- **Sêr – Sandra Bullock a George Clooney**
- **Yr ymgyrch farchnata**
- **Y defnydd o dechnoleg 3D**
- **Cyfarwyddwr – Alfonso Cuaron**
- **Sioe sinematig y ffilm**
- **Naratif y ffilm.**

**Mae'n siŵr eich bod chi wedi rhoi lle uchel i rôl y sêr wrth asesu'r rhesymau am lwyddiant *Gravity* yn y swyddfa docynnau. Mae'n ymddangos bod rôl Sandra Bullock yn y ffilm wedi chwarae rhan allweddol yn ei llwyddiant masnachol. Mae hi wedi dod yn llawer mwy poblogaidd eto dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n ymddangos mewn nifer o ffilmiau poblogaidd a llwyddiannus.**

## Tasg 1 (Adnodd Digidol 4b)

- **Rhestrwch pwy oedd deg seren fwyaf 2013, yn eich barn chi.**

**Mae nifer o asesiadau i'w hystyried wrth benderfynu pa mor fawr yw seren. Penderfynodd y cylchgrawn ar-lein *Vulture* ar y rhestr ganlynol o'r deg seren fwyaf yn 2013. Mae *Vulture* wedi seilio'r rhestr ar lawer o feini prawf: swyddfa docynnau UDA, y swyddfa docynnau dramor, gwerth i stiwdios, pa mor hoffus ydyn nhw, gwobrau Oscar, barn y beirniaid, sylwadau Twitter a gwerth i'r papurau poblogaidd (*tabloids*).**

**http://www.vulture.com/2013/10/most-valuable-movie-stars.html#/all/vulture-rankings**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1. Robert Downey Jr.** | **2. Leonardo DiCaprio** | **3. Jennifer Lawrence** | **4. Sandra Bullock** | **5. Brad Pitt** |
| **6. Will Smith** | **7. Christian Bale** | **8. Denzel Washington** | **9. Tom Hanks** | **10. Johnny Depp** |

**Mewn grwpiau bach, trafodwch y canlynol:**

- **Cymharwch eich rhestr chi â rhestr *Vulture*. Ym mha ffyrdd maen nhw'n wahanol? Rhowch resymau am hyn.**
- **Yn eich barn chi, pa sêr sydd ar goll o restr *Vulture*?**
- **Pa ffilmiau, a gafodd eu rhyddhau yn 2013, sy'n gyfrifol am lwyddiant y sêr hyn?**
- **A oes unrhyw beth yn y rhestr sydd yn eich synnu ynglŷn â rhyw ac oedran y sêr?**

## Tasg 2 (Adnodd Digidol 4c)



**SANDRA BULLOCK – Y seren fawr sydd yn fwy nag y bu hi erioed**

***Ar ôl ychydig o flynyddoedd y tu ôl i'r llen, camodd yn ôl i'r sgrin gyda chomedi poblogaidd a'r ffilm a gafodd adolygiadau gorau'r flwyddyn.***

**Byddai wedi bod yn anodd cael blwyddyn well nag a gafodd Sandra Bullock yn 2009 – ymddangosodd mewn dwy ffilm lwyddiannus iawn, sef *The Proposal* a *The Blind Side*, gan ennill Oscar am ei rôl yn *The Blind Side*. Ond efallai bod 2013 wedi bod cystal pob tamaid â 2009. Gwnaethpwyd $159.1 miliwn o ganlyniad i bartneriaeth Bullock a Melissa McCarthy dros yr haf yn *The Heat* (bron yr un faint o arian ag y gwnaeth ei ffilm boblogaidd o 2009, *The Proposal*), ac roedd yn ein hatgoffa bod Bullock yn dal i allu denu cynulleidfaoedd mawr. Yna daeth *Gravity*, a chafodd Bullock yr adolygiadau gorau y mae hi erioed wedi eu cael ar ôl i'r ffilm gael ei dangos am y tro cyntaf. Efallai mai dyma fydd ffilm fwyaf llwyddiannus Bullock (ac efallai y caiff gydnabyddiaeth gydag Oscar arall hyd yn oed).**

**Gallai *Gravity* fod yn ateb posibl i broblem fwyaf Bullock hefyd: ei hapêl ryngwladol. Mae stiwdios, cynulleidfaoedd (dim ond tair seren oedd yn uwch na hi mewn pôl piniwn o ran bod yn hoffus), a'r papurau poblogaidd yn dwlu arni, ond mae ei henw'n golygu llawer mwy gartref na thramor, gyda *The Blind Side* a *The Heat* yn cael trafferth gwneud mwy na $50 miliwn yn rhyngwladol, sef cyfran fach iawn o'r arian gwerthiant yn UDA. Nid oes amheuaeth na fydd *Gravity*, sioe llawn effeithiau 3D, yn cael yr un broblem (mae wedi cael dechrau da dramor, er nad yw hi wedi agor yn y rhan fwyaf o'r prif diriogaethau eto), felly mae stiwdios yn gobeithio bod cynulleidfaoedd dramor yn dechrau sylweddoli beth rydym ni eisoes yn ei wybod yn UDA: nid yw pethau erioed wedi bod cystal i'r seren enfawr hon sydd bron yn 50 oed.**

# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

## Cynhyrchu a Dosbarthu: Sêr – Sandra Bullock

| | |
|---|---|
| Trefn o'i gymharu â 2012 | 7 lle yn uwch |
| Swyddfa docynnau ddomestig | $163,473,346 |
| Swyddfa docynnau dramor | $53,202,067 |
| Gwerth i stiwdios (1–10) | 9 |
| Pa mor hoffus | 79% |
| Gwobrau Oscar | wedi ennill 1 |
| Sgôr y beirniaid (1–100) | 58 |
| Sylwadau Twitter | 756 |
| Gwerth i'r papurau poblogaidd (1–10) | 7 |

**Mae'r ffigurau ar gyfer y swyddfa docynnau ddomestig, y swyddfa docynnau dramor, a sgôr y beirniaid i gyd yn ganolrifau pwysol.**

– O ystyried y wybodaeth hon, awgrymwch resymau pam mae Sandra Bullock mor llwyddiannus.

## Tasg 2 (Adnodd Digidol 4c)

1. Gwyliwch y rhaghysbyseb ar gyfer *Gravity*. I ba raddau mae'r rhaghysbyseb yn defnyddio Sandra Bullock i werthu'r ffilm?

http://www.youtube.com/watch?v=k0ijEEivCbg

2. Ydych chi'n credu bod cynulleidfaoedd yn y gorffennol wedi meddwl mai ei rôl yn *All About Steve* (2009) yw'r math o rôl y dylai Sandra Bullock ei chwarae? A oes unrhyw broblemau â hyn yma?

http://www.youtube.com/watch?v=iGpne6wPBPY

3. Ar sail y rhaghysbyseb ar gyfer *The Blind Side* (2009), pam rydych chi'n credu yr enillodd Bullock Oscar am y rôl hon? Sut mae'n wahanol i'w ffilm arall y flwyddyn honno – *All About Steve*?

http://www.youtube.com/watch?v=dJ3kwMq18-8

4. Yn y rhaghysbyseb ar gyfer *The Heat* (2013), pa fath o rôl mae Bullock yn ei chwarae? A yw hyn yn wahanol i'n disgwyliadau arferol ohoni hi?

http://www.youtube.com/watch?v=ST16k80bDYE

## Tasg 2 (Adnodd Digidol 4c)

– Edrychwch ar y seren arall yn *Gravity* – George Clooney. Dewiswch bedair o'i ffilmiau mwyaf diweddar ac edrychwch ar y rhaghysbysebion ar eu cyfer. Ceisiwch benderfynu pa fath o seren yw George Clooney.
– Darllenwch yr erthygl hon o *The Guardian* am Sandra Bullock a thynnwch sylw at y prif bwyntiau a wneir am Sandra Bullock yn *Gravity*.

http://www.theguardian.com/film/2014/feb/06/sandra-bullock-pain-gravity-oscars-george-clooney-2014